

Cynnwys

TGAU CBAC mewn FFRANGEG

I'w Addysgu o 2012 I'w Ddyfarnu o 2014

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesiad	2
Rhagarweiniad	3
Cynnwys y Fanyleb	5
Cynllun Asesu	7
Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll	10
Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth	11
Disgrifiadau o'r Graddau	14
Y Cwricwlwm Ehangach	16
Strwythurau Gramadegol	18

Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

FFRANGEG

CRYNODEB O'R ASESIAD

Uned 1: Gwrando (20%) Papur Ysgrifenedig: tua 35 munud (S), tua 45 munud (U) 40 marc (40 GMU)
Gwrando a Deall gydag ymatebion dieiriau ac ymatebion geiriol yn Gymraeg/Saesneg.
Uned 2: Siarad (30%) Asesiad dan Reolaeth (di-haen) 40 marc (60 GMU)
2 dasg: Sgwrs strwythuredig Cyflwyniad a thrafodaeth
Uned 3: Darllen (20%) Papur Ysgrifenedig: 35 munud (S) 45 munud (U) 40 marc (40 GMU)
Darllen a Deall gydag ymatebion dieiriau ac ymatebion geiriol yn Gymraeg/Saesneg.
Uned 4: Ysgrifennu (30%) Asesiad dan Reolaeth (di-haen) 40 marc (60 GMU)
2 dasg ysgrifenedig o wahanol gyd-destunau.

DARPARIAETH YR ASESU A'R ARDYSTIO

	Cod Cofrestru		Mehefin 2014 a phob blwyddyn wedi hynny
	Pwnc	Opsiwn*	
Uned 1	4221	01 neu W1 (S)	✓
	4221	02 neu W2 (U)	✓
Uned 2	4222	01 neu W1	✓
Uned 3	4223	01 neu W1 (S)	✓
	4223	02 neu W2 (U)	✓
Uned 4	4224	01 neu W1	✓
Dyfarniad Pwnc	4220	LA neu UL	✓

* Codau Opsiwn

Cyfrwng Saesneg 01, Cyfrwng Cymraeg W1 - ar gyfer unedau
 Cyfrwng Cymraeg UL, Cyfrwng Saesneg LA - ar gyfer dyfarniad pwnc

Rhif Achredu'r Cymhwyster: 500/4569/6

Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

FFRANGEG

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Sail Resymegol

Bydd y fanyleb TGAU Ffrangeg yn naturiol yn cyfoethogi ymwybyddiaeth Ewropeaidd a byd-eang ymgeiswyr. Yn yr un modd, bydd cyfleoedd yn codi'n naturiol i archwilio agweddau ysbrydol, moesol, moesegol a diwylliannol testunau a astudiwyd. Bydd fersiynau Cymraeg o fanylebau a phapurau cwestiynau ar gael. Bydd cyfleoedd i ymgeiswyr ddatblygu eu Sgiliau Allweddol.

1.2 Nodau a Chanlyniadau Dysgu

Dylai dilyn cwrs TGAU Ffrangeg annog myfyrwyr i gael mwynhad a budd o ddysgu iaith, a chael eu hysbrydoli, eu cyffroi a'u newid wrth ddilyn cwrs astudio eang, cydlynol, boddhaus a gwerth chweil. Dylai dysgwyr gydnabod bod eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ieithyddol yn eu helpu i gymryd eu lle mewn cymdeithas fyd-eang amlieithog a rhoi iddynt hefyd sail addas ar gyfer astudio pellach a defnydd ymarferol o'r iaith. Dylai'r fanyleb TGAU Ffrangeg baratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfleoedd dysgu pellach a dewisiadau gyrfa.

Bydd y fanyleb TGAU Ffrangeg yn galluogi dysgwyr i:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- datblygu gwybodaeth o'r iaith a sgiliau dysgu iaith
- datblygu'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn yr iaith
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wledydd a chymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad.

1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad oes unrhyw ofyniad penodol am ddysgu blaenorol, mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar astudio Ffrangeg yng Nghyfnod Allweddol 3. Gall unrhyw ymgeisydd ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i gefndir o ran rhyw na'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oed ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ymgeiswyr ymestyn eu dysgu gydol oes.

1.4 Cydraddoldeb ac Asesu Teg

Mae TGAU yn aml yn gofyn am asesu ystod eang o gymwyseddau. Mae hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol ac felly'n paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiaeth eang o alwedigaethau a chyrсияu o safon uwch.

Adolygwyd y meini prawf cymhwyster a phwnc TGAU diwygiedig i nodi a oedd unrhyw rai o'r cymwyseddau yr oedd eu hangen ar y pwnc yn creu rhwystr i unrhyw ymgeiswyr anabl. Os felly, adolygwyd y sefyllfa eto i sicrhau na fyddai cymwyseddau o'r fath yn cael eu cynnwys ond lle roedd hynny'n hanfodol i'r pwnc. Trafodwyd casgliadau'r broses hon gyda grwpiau anabledd a phobl anabl.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. Am y rheswm hwn, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd â rhwystr llwyr rhag gallu cymryd rhan mewn unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) sef *Rheoliadau ac Arweiniad: Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (JCQ) (www.icq.org.uk) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr anabledd, efallai na fydd yn bosibl i ymgeiswyr â nam lleferydd neu glyw fodloni'r meini prawf ar gyfer asesu sgiliau siarad a gwranddo. Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr anabledd, efallai na fydd yn bosibl i ymgeiswyr â nam golwg fodloni'r meini prawf ar gyfer asesu darllen.

Efallai y bydd ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, yn dal i allu derbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd ar sail y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a byddai'n cael ei nodi ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu ac efallai y caiff ei newid yn y dyfodol.

1.5 Codau Dosbarthu

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pwnc y mae'n perthyn. Y cod dosbarthu ar gyfer y fanyleb hon yw 5650.

Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau.

Gall canolfannau gynghori ymgeiswyr, os byddant yn dilyn dwy fanyleb â'r un cod dosbarthu, y bydd ysgolion a cholegau'n debygol iawn o farnu eu bod wedi cyflawni un yn unig o'r ddwy TGAU. Efallai mai'r un farn a lunnir os bydd ymgeiswyr yn dilyn dwy fanyleb TGAU sydd â chodau dosbarthu gwahanol ond sydd â gorgyffwrdd sylweddol o ran cynnwys. Dylai ymgeiswyr sydd ag unrhyw amheuan ynghylch eu cyfuniadau o bynciau gysylltu â'r sefydliad y dymunant symud ymlaen iddo cyn cychwyn ar eu rhaglenni.

2

CYNNWYS

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr:

- wrando ac ymateb i wahanol fathau o iaith
- cyfathrebu ar lafar ar gyfer amrywiaeth o ddibenion
- darllen ac ymateb i wahanol fathau o iaith ysgrifenedig
- cyfathrebu'n ysgrifenedig ar gyfer amrywiaeth o ddibenion
- defnyddio a deall ystod o eirfa a strwythurau
- deall a chymhwyso gramadeg yr iaith, fel y nodir yn y fanyleb

Bydd y cynnwys a fydd yn cael ei astudio yn ymdrin â'r cyd-destunau bras canlynol:

Bywyd Personol a Chymdeithasol

Y Gymuned Leol

Byd Gwaith

Y Byd Ehangach

Dylai ymgeiswyr allu defnyddio iaith ar gyfer y dibenion canlynol:

dweud pa ieithoedd maent yn eu siarad a pha mor dda
 cyfarch a siarad â rhywun yn briodol yn yr iaith
 dweud a yw rhywbeth wedi ei ddeall ai peidio
 gofyn am ailadrodd rhywbeth
 sillafu a gofyn sut caiff rhywbeth ei sillafu
 gofyn beth yw rhywbeth yn yr iaith darged
 gofyn i rywun siarad yn fwy araf
 gofyn am esboniad, eglurhad a chymorth
 ymddiheuro
 gofyn a yw rhywbeth yn gywir
 cychwyn sgwrs
 mynegi cytundeb neu anghytundeb
 nodi hoff ddewis a rhoi rhesymau
 gofyn am ganiatâd i wneud pethau
 cwyno
 gofyn am gymorth a chynnig cymorth
 rhoi a cheisio barn

O fewn y cyd-destunau bras, caiff y meysydd canlynol eu cynnwys.

Bywyd Personol a Chymdeithasol

Yr hunan, teulu, ffrindiau, bywyd y cartref, siopa, prydau bwyd, byw'n iach, salwch a damweiniau, amser rhydd, ffasiwn, perthnasoedd, cynlluniau'r dyfodol.

Y Gymuned Leol

Tref frodorol, ysgol, addysg, yr amgylchedd lleol, llygredd, ailgylchu, cyfleusterau lleol, cymariaethau â threfi a rhanbarthau eraill, y tywydd a'r tymhorau.

Byd Gwaith

Profiad gwaith, swyddi rhan amser, gyrfaoedd y dyfodol, technoleg (anfon negeseuon, cyrchu gwybodaeth).

Y Byd Ehangach

Teithio a gwyliau, y cyfryngau, materion cymdeithasol (e.e. bywyd pobl ifanc heddiw, digartrefedd, trosedd, cyffuriau, byw'n iach, crefydd, gwleidyddiaeth), bywyd yn y gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad.

3

ASESU

3.1 Cynllun Aseu

Mae TGAU Ffrangeg yn cael ei asesu mewn haenau, h.y. caiff cydrannau/unedau sy'n cael eu hasesu'n allanol eu targedu ar ystod graddau o A*-D (Haen Uwch) a C-G (Haen Sylfaenol). Bydd y cwestiynau a'r tasgau'n cael eu llunio i alluogi ymgeiswyr i ddangos yr hyn y maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

Gall ymgeisydd gofrestru am un haen yn unig ym mhob cydran yn ystod unrhyw gyfres arholiad penodol:

Haen	Graddau sydd ar gael
Uwch	A*, A, B, C, D
Sylfaenol	C, D, E, F, G

Dyfernir Gradd E i ymgeiswyr sydd prin yn methu ag ennill Gradd D ar yr Haen Uwch.

Bydd y cynllun aseu'n cynnwys:

Aseu Allanol**Gwrando - Uned 1**

Bydd yr arholiad, a fydd yn para tua 35 munud (+ 5 munud o amser darllen) ar yr Haen Sylfaenol a 45 munud (+ 5 munud o amser darllen) ar yr Haen Uwch, yn cael ei lunio i ganiatáu i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu deall Ffrangeg llafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gwrandewir ar bob eitem ddwywaith. Caniateir pum munud i ymgeiswyr astudio'r cwestiynau cyn i'r recordiad gael ei chwarae.

Gwneir defnydd o ymatebion dieiriau, fel ticio blychau, dewis lluosog a chysylltu ac ymatebion geiriol yn y Gymraeg/Saesneg.

Gall y prawf gwrando aseu, ymysg pethau eraill, ddealltwriaeth o gyhoeddiadau cyhoeddus, cyfarwyddiadau a cheisiadau, cyfweliadau, eitemau newyddion, deialogau byr ac ymsonau monologau fel rhagolygon y tywydd.

Ni chaniateir geiriaduron.

Darllen - Uned 3

Bydd yr arholiad, a fydd yn para 35 munud ar yr Haen Sylfaenol a 45 munud ar yr Haen Uwch, yn cael ei lunio i ganiatáu i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu deall ac ymateb i Ffrangeg ysgrifenedig mewn gwahanol gyweiriau a chyd-destunau ac o wahanol ffynonellau.

Gwneir defnydd o ymatebion dieiriau, fel ticio blychau, dewis lluosog a chysylltu ac ymatebion geiriol yn y Gymraeg/Saesneg.

Gall y prawf darllen asesu, ymysg pethau eraill, dealltwriaeth o hysbysiadau ac arwyddion cyhoeddus ysgrifenedig, erthyglau cylchgronau neu bapur newydd a gwybodaeth bersonol fel sydd i'w gael mewn llythyrau, nodiadau, negeseuon e-bost neu negeseuon.

Ni chaniateir geiriaduron.

Asesiadau dan Reolaeth

Siarad - Uned 2

Gall ymgeiswyr gwblhau asesiadau dan reolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs.

2 Dasg. Byddant yn cynnwys:

Sgwrs strwythuredig
Rhoi cyflwyniad

Sgwrs strwythuredig yn seiliedig ar y cyd-destunau (4-5 munud) 20 marc.
Darperir fframweithiau ar gyfer y sgwrs strwythuredig neu gall canolfannau greu eu fframweithiau eu hunain yn seiliedig ar ddiddordebau pob ymgeisydd.

Rhoi cyflwyniad (5-7 munud) 20 marc.
Dewis rhydd o destun wedi'i gyflwyno gan yr ymgeisydd (2-3 munud) wedi'i ddilyn gan drafodaeth o'r cyflwyniad (3-4 munud).

Caiff tasgau eu gweinyddu a'u hasesu gan yr athro dosbarth a chaiff sampl ei anfon i CBAC i'w safoni.

Mae deunydd enghreifftiol wedi'i ddarparu yn y papurau asesu enghreifftiol.

Rhaid dewis y tasgau o gyd-destunau gwahanol.

Ysgrifennu - Uned 4

Gall ymgeiswyr gwblhau asesiadau dan reolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau dwy dasg, 20 marc yr un, y gellir eu cymryd o fanc tasgau a ddarperir gan CBAC, neu gall yr athro eu haddasu.

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau'r holl waith o dan arolygaeth uniongyrchol mewn un sesiwn. Caniateir geiriaduron a bydd ymgeiswyr yn gallu gweld nodiadau a baratowyd ganddynt cyn y sesiwn ac y byddant yn cael eu cyflwyno gyda'u gwaith. Gellir cynhyrchu gwaith trwy TG ond rhaid i athrawon sicrhau nad oes modd cyrchu gwirwyr gramadeg a sillafu ar-lein.

Rhaid dewis y tasgau o gyd-destunau gwahanol.

Caiff yr holl waith ei anfon i CBAC i'w farcio.

3.2 Amcanion Asesu

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu gallu i:

AA1 Deall iaith lafar

AA2 Cyfathrebu ar lafar

AA3 Deall iaith ysgrifenedig

AA4 Cyfathrebu'n ysgrifenedig

Mae pwysiadau'r amcanion asesu ar draws cydrannau'r arholiad fel a ganlyn:

	AA1	AA2	AA3	AA4	Cyfanswm
Gwranddo Uned 1	20%				
Siarad Uned 2		30%			
Darllen Uned 3			20%		
Ysgrifennu Uned 4				30%	
Cyfanswm y Pwysiad	20%	30%	20%	30%	100%

4 DYFARNU, ADRODD AC AILSEFYLL

Caiff cymwysterau TGAU eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A* i G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd cyrhaeddiad disgyblion na fyddant yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i gael gradd yn cael ei gofnodi â'r llythyren U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Manyleb linol yw hon y mae'n rhaid cymryd pob asesiad ynddi ar ddiwedd y cwrs. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr gwblhau'r asesiad dan reolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs. Rhaid gwneud cydrannau allanol eto os yw ymgeiswyr yn dymuno ailsefyll. Gellir ailsefyll y gydran asesiad dan reolaeth hefyd yn ôl canllawiau a roddir yn 'Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth'. Fel arall, gellir trosglwyddo'r marc GMU am y gydran hon i'w agregu gyda'r cydrannau allanol pan fyddant yn cael eu hailsefyll.

Caiff canlyniadau unedau unigol eu hadrodd ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

GRADD	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
Unedau 1 a 3	40	36	32	28	24	20	16	12	8
Unedau 2 a 4	60	54	48	42	36	30	24	18	12
Dyfarniad Pwnc	200	180	160	140	120	100	80	60	40

5

GWEINYDDU'R ASESAD DAN REOLAETH

Mae rheoliadau ar gyfer asesiad dan reolaeth yn cael eu diffinio ar gyfer tri cham yr asesiad:

- gosod y dasg
- gwneud y dasg
- marcio'r dasg

Ar gyfer pob cam mae'r awdurdodau rheoleiddio wedi nodi lefel benodol o reolaeth i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd.

Mae'r asesiadau dan reolaeth yn ddi-haen ac mae'r gwahaniaethu'n digwydd yn ôl y canlyniad.

Siarad

Gosod y dasg Rheolaeth gyfyngedig

Mae lefel gyfyngedig o reolaeth er mwyn rhoi rhyddid a hyblygrwydd i athrawon ddyfeisio tasgau sy'n addas i ddiddordebau'r myfyrwyr. Bydd CBAC yn darparu banc o dasgau enghreifftiol (gellir gweld enghreifftiau yn y llyfrynnau asesu enghreifftiol) a fydd yn newid bob dwy flynedd. Gall canolfannau addasu'r tasgau hyn i fod yn addas i anghenion eu hymgeiswyr (rhoddir awgrymiadau am gwestiynau eraill yn y papurau asesu enghreifftiol). Rhaid i addasiadau canolfannau newid bob dwy flynedd hefyd.

Tasg 1 - Bydd ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn sgwrs strwythuredig yn seiliedig ar fframwaith (gwe gysyniadau) wedi'i gysylltu ag un o'r cyd-destunau. Bydd y sgwrs yn para 4-5 munud.

Tasg 2 - Bydd ymgeiswyr yn rhoi cyflwyniad ar destun o'u dewis. Bydd y cyflwyniad yn para 2-3 munud a bydd trafodaeth gyda'r athro yn dilyn a fydd yn para 3-4 munud.

Gwneud y dasg Rheolaeth ganolig

Rhoddir manylion llawn y tasgau yn y llyfryn deunyddiau asesu enghreifftiol.

Gall ymgeiswyr weld y dasg Sgwrs Strwythuredig pythefnos cyn y prawf a gallant wneud nodiadau (penawdau byr yn unig). Dylid rhoi'r nodiadau hyn i'r athro ar ddiwedd y prawf.

Dylai'r dasg gyflwyno ddangos tystiolaeth o ymchwil yr ymgeisydd a all gynnwys ymchwiliad ar-lein neu astudiaeth trwy gyfryngau perthnasol eraill. Caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau byr (dim mwy na 30 o eiriau ar ffurf pwyntiau bwled) y dylai'r athro eu cadw. Gellir hefyd ddefnyddio ysgogiad gweledol fel ffotograff, cerdyn post neu wrthrych bychan.

Cyn y dasg, dylai athrawon drafod natur y cyflwyniad gyda'r myfyrwyr a chynnig cyngor ar sut i ymchwilio i'r pwnc a chyngor ar yr iaith. Ni ddylid cynnig cefnogaeth arall a rhaid i athrawon beidio â rhoi sylwadau ar y nodiadau a ddefnyddir i gefnogi'r cyflwyniad.

Yn ystod yr asesiadau, ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriadur.

Caiff yr asesiadau eu cwblhau o dan oruchwyliaeth anffurfiol yn y dosbarth lle y gall ymgeiswyr weithio mewn grwpiau. Ar gyfer dibenion asesu, serch hynny, rhaid i ymgeiswyr ddarparu ymateb unigol.

Gall ymgeiswyr gael eu hasesu ar fwy nag un achlysur am bob tasg (gan ddefnyddio gwahanol dasgau) a gallant gyflwyno'r marciau gorau.

Marcio'r dasg Rheolaeth ganolig

Bydd athrawon yn cynnal ac yn asesu'r tasgau llafar gan ddilyn y meini prawf sydd wedi'u gosod yn y cynlluniau marcio yn y llyfryn asesu enghreifftiol.

Caiff ymgeiswyr eu recordio a chaiff sampl (yn seiliedig ar y niferoedd yn y grŵp a chan ddilyn canllawiau CBAC am bob pwnc) eu hanfon ym mis Mai i CBAC i'w safoni.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod safoni mewnlol gofalus yn digwydd lle y mae mwy nag un athro'n gyfrifol am farcio. Lle mae safoni mewnlol yn angenrheidiol, dylai'r athro sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y broses hon ddarparu amlinelliad ysgrifenedig (y dylid ei anfon at y safonwr) o'r trefnau a ddilynwyd.

Ysgrifennu

Gosod y dasg Rheolaeth gyfyngedig

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu dau ddarn o waith ysgrifenedig o gyd-destunau gwahanol.

Dylai ymgeiswyr sy'n anelu at raddau G-D gynhyrchu 200-350 o eiriau dros y ddau ddarn a dylai ymgeiswyr sy'n anelu at raddau C-A* gynhyrchu 400-600 o eiriau.

Mae lefel gyfyngedig o reolaeth er mwyn rhoi rhyddid a hyblygrwydd i athrawon ddyfeisio tasgau sy'n addas i ddiddordebau'r myfyrwyr. Bydd CBAC yn darparu banc o dasgau enghreifftiol (gellir gweld enghreifftiau yn y llyfryn asesu enghreifftiol) a fydd yn newid bob dwy flynedd. Gall canolfannau addasu'r tasgau hyn i fod yn addas i anghenion eu hymgeiswyr (rhoddir awgrymiadau am ddewisiadau eraill yn y llyfryn asesu enghreifftiol) neu ddyfeisio eu tasgau eu hunain. Rhaid newid y tasgau hyn bob dwy flynedd.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod y tasgau wedi eu llunio neu eu haddasu i roi cyfle i ymgeiswyr ennill y marciau uchaf.

Gwneud y dasg Rheolaeth uchel

Rhoddir manylion llawn y tasgau yn y llyfryn deunyddiau asesu enghreifftiol.

Gall ymgeiswyr weld y dasg pythefnos cyn y prawf.

Gall paratoi cyn asesu gynnwys nodiadau dosbarth, gwerslyfrau, geiriaduron neu adnoddau TG a mewnbwn athrawon. Dylid annog ymgeiswyr i ymchwilio i'r pwnc a gall athrawon gynnig cyngor ar fethodoleg ymchwil a chynngor ar yr iaith. Ni ddylid cynnig unrhyw gefnogaeth arall. Rhoddir proforma gan CBAC lle y bydd athrawon yn cofnodi'r cyngor a roddwyd.

Caiff pob tasg ei chwblhau yn ystod gwers amserlen arferol (45-60 munud). Bydd ymgeiswyr yn cwblhau'r holl waith yn annibynnol o dan oruchwyliaeth ffurfiol a gallant ddefnyddio nodiadau (35-40 o eiriau mewn pwyntiau bwled) y mae'n rhaid eu cyflwyno ar ddiwedd y dasg.

Gall ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron a gallant gwblhau'r tasgau gan ddefnyddio TG ond mae'n rhaid i athrawon sicrhau nad oes modd cyrchu gwirwyr sillafu ar-lein a nodiadau gramadeg.

Gall ymgeiswyr gael eu hasesu ar fwy nag un achlysur am bob tasg (gan ddefnyddio tasgau gwahanol) a chyflwyno'r darnau gorau i'w marcio.

Marcio'r dasg Rheolaeth uchel

Caiff y ddwy dasg am bob ymgeisydd eu cyflwyno i CBAC ym mis Mai i'w marcio'n allanol.

Rhoddir canllawiau pellach ar yr asesiadau dan reolaeth mewn sesiynau HMS ac yn y llyfryn 'Canllawiau i Athrawon'.

Dilysu'r Asesiad dan Reolaeth

Mae gofyn i ymgeiswyr lofnodi mai eu gwaith nhw yw'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith a gaiff ei asesu a'i fod wedi'i wneud dan yr amodau gofynnol. Bydd CBAC yn darparu copi o ffurflen ddilysu, sy'n ffurfio rhan o'r daflen glawr ar gyfer gwaith pob ymgeisydd. Mae'n bwysig nodi bod gofyn i **bob** ymgeisydd lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai hynny sydd â'u gwaith yn rhan o'r sampl sy'n cael ei chyflwyno i'r safonwr. Nid oes angen hysbysu CBAC o gamymddwyn a ddarganfyddir cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu, ond rhaid ymdrin â hyn yn unol â dulliau gweithredu mewnol y ganolfan.

Cyn i unrhyw waith tuag at yr Asesiad dan Reolaeth gael ei wneud, dylid tynnu sylw ymgeiswyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC (JCQ). Mae hwn ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk) ac mae wedi'i gynnwys yn *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs/Portffolios*. Mae'r dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk). Rhoddir arweiniad mwy manwl ynghylch atal llên-ladrad yn *Plagiarism in Examinations; Guidance for Teachers/Assessors*, sydd hefyd ar gael ar wefan y CGC.

6

DISGRIFIADAU O'R GRADDAU

Darperir disgrifiadau o'r graddau er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad sy'n debygol o fod wedi'u dangos gan ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a nodir gan y fanyleb; ni chawsant eu cynllunio i ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Yn ymarferol, bydd y radd a ddyfarnir yn dibynnu ar faint llwyddiant yr ymgeisydd i gwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar berfformiad ymgeiswyr yn yr asesiad gael eu cydbwysu gan berfformiadau gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o iaith lafar sy'n cynnwys peth iaith gymhleth ac yn ymwneud ag amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn gallu adnabod prif bwyntiau, manylion a safbwyntiau a thynnu casgliadau syml.

Maent yn cychwyn ac yn datblygu sgysiau a thrafodaethau, yn cyflwyno gwybodaeth ac yn adrodd digwyddiadau. Maent yn mynegi ac yn egluro syniadau a safbwyntiau, ac yn cynhyrchu dilyniannau estynedig o leferydd gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa, strwythurau ac amserau berf. Maent yn siarad yn hyderus, gydag ynganiad a goslef resymol o gywir. Mae'r neges yn glir ond gall fod rhai gwallau, yn enwedig pan fyddant yn defnyddio strwythurau mwy cymhleth.

Maent yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau ysgrifenedig sy'n ymwneud ag ystod o gyd-destunau. Maent yn deall peth iaith anghyfarwydd ac yn tynnu ystyr o iaith fwy cymhleth a thestunau estynedig. Maent yn gallu adnabod prif bwyntiau, tynnu manylion, adnabod safbwyntiau, agweddau ac emosïynau a thynnu casgliadau syml.

Maent yn ysgrifennu ar gyfer gwahanol bwrpasau a chyd-destunau am bynciau real neu ddychmygol. Maent yn mynegi ac yn egluro syniadau a safbwyntiau. Maent yn defnyddio amrywiaeth o eirfa, strwythurau ac amserau berf. Mae eu sillafu a'u gramadeg yn gywir yn gyffredinol. Mae'r neges yn glir ond gall fod rhai gwallau, yn enwedig pan fyddant yn ysgrifennu brawddegau mwy cymhleth.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o iaith lafar sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Mae'r deunydd llafar yn ymwneud ag amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys rhai a all fod yn anghyfarwydd, a gall ymwneud â digwyddiadau yn y gorffennol neu'r dyfodol. Maent yn gallu adnabod prif bwyntiau, manylion a safbwyntiau.

Maent yn cymryd rhan mewn sgysiau a thrafodaethau syml ac yn cyflwyno gwybodaeth. Maent yn mynegi safbwyntiau ac yn dangos gallu i ymdrin â rhai elfennau annisgwyl. Mae eu hiaith lafar yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau a gall ymwneud â digwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol. Mae eu hynganiad a'u goslef yn fwy cywir nag anghywir. Maent yn cyfleu neges glir ond gall fod rhai gwallau.

Maent yn dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o destunau ysgrifenedig sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Mae'r deunydd ysgrifenedig yn ymwneud ag amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys rhai a all fod yn anghyfarwydd, a gall ymwneud â digwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol. Maent yn gallu adnabod prif bwyntiau, tynnu manylion ac adnabod safbwyntiau.

Maent yn ysgrifennu ar gyfer gwahanol gyd-destunau a all fod yn real neu'n ddychmygol. Maent yn cyfathrebu gwybodaeth ac yn mynegi safbwyntiau. Maent yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau a gallant gynnwys gwahanol amserau'r ferf neu fframiau amser. Mae'r arddull yn sylfaenol. Maent yn cyfleu neges glir ond gall fod rhai gwallau.

Gradd F

Mae ymgeiswyr yn dangos peth dealltwriaeth o iaith syml sy'n cael ei siarad yn glir sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Maent yn gallu adnabod prif bwyntiau ac yn tynnu rhai manylion.

Maent yn cymryd rhan mewn sgysiau syml, yn cyflwyno gwybodaeth syml ac yn gallu mynegi eu barn. Maent yn defnyddio ystod gyfyngedig o iaith. Mae eu hynganiad yn ddealladwy. Ceir gwallau gramadeg ond mae'r prif bwyntiau'n cael eu cyfleu fel arfer.

Maent yn dangos peth gwybodaeth o destunau ysgrifenedig, syml, byr sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Maent yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o iaith anghyfarwydd. Maent yn gallu adnabod prif bwyntiau a rhai manylion.

Maent yn ysgrifennu testunau byr sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Maent yn gallu mynegi safbwyntiau syml. Maent yn defnyddio brawddegau syml. Mae'r prif bwyntiau fel arfer yn cael eu cyfleu ond mae gwallau o ran sillafu a gramadeg.

7

Y CWRICWLWM EHANGACH

Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio TGAU mewn Ffrangeg a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefelau 1 a 2:

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Ffrangeg', sydd ar gael ar wefan CBAC.

Materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol, deddfwriaethol, economaidd a diwylliannol

Mae astudio Ffrangeg yn cynnig cyfleoedd i hybu:

- **datblygiad ysbrydol**, trwy symbylu diddordeb ymgeiswyr yn ffenomen iaith a'r ystyron a'r teimladau y gall eu trosglwyddo;
- **datblygiad moesol**, trwy helpu ymgeiswyr i ffurfio a mynegi barn yn Ffrangeg am faterion sy'n ymwneud â'r hyn sy'n iawn ac yn anghywir;
- **datblygiad cymdeithasol**, trwy archwilio gwahanol gonfensiynau cymdeithasol, fel ffurfiau cyfarch, trwy ddatblygu gallu ymgeiswyr i gyfathrebu ag eraill, yn enwedig siaradwyr Ffrangeg, mewn dull priodol, goddefgar a chyda chydymdeimlad, a thrwy feithrin ysbryd o gydweithredu wrth ddefnyddio Ffrangeg i gyfathrebu â phobl eraill, boed yn ddysgwyr neu'n siaradwyr brodorol;
- **datblygiad diwylliannol a dealltwriaeth o faterion deddfwriaethol ac economaidd** trwy roi i ymgeiswyr olwg ar wahaniaethau diwylliannol a chyfleoedd i weld perthynas y rhain â'u profiad eu hunain ac i ystyried gwahanol draddodiadau, agweddau ac ymddygiadau diwylliannol ac ieithyddol. Bydd astudio pob agwedd ar wlad yr iaith darged yn meithrin ymwybyddiaeth o faterion deddfwriaethol ac economaidd.

Materion Amgylcheddol ac Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

Bydd astudio Ffrangeg yn gymorth i gyflwyno i ymgeiswyr werthfawrogiad o faterion amgylcheddol a bydd yn cyfrannu at addysg amgylcheddol ymgeiswyr. Caiff ystyriaethau lechyd a Diogelwch hefyd eu codi trwy'r meysydd pwnc.

Y Dimensiwn Ewropeaidd

Mae astudio TGAU Ffrangeg yn naturiol yn rhan annatod o'r dimensiwn Ewropeaidd, gan roi i weithlu'r dyfodol sgiliau priodol i'r economi byd-eang. Mae astudio Ffrangeg yn ehangu gorpwelion ymgeiswyr ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau yn y ddau ddiwylliant.

Dinasyddiaeth

Bydd astudio Ffrangeg yn gymorth i ddatblygu mewn ymgeiswyr ddealltwriaeth lawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion mewn democratiaeth fodern o fewn cyd-destun Ewropeaidd.

Cyfleoedd i ddefnyddio TGCh

Er mwyn chwarae rhan lawn mewn cymdeithas fodern, mae angen i ymgeiswyr allu defnyddio TGCh yn hyderus ac yn effeithiol. Rhoddir cyfleoedd, yn enwedig mewn aseiniadau gwaith cartref, i ymgeiswyr ddangos eu defnydd o TGCh trwy ddefnyddio sain, fideo a'r rhyngrwyd i gyrchu ac i gyfathrebu gwybodaeth. Efallai bydd yr aseiniadau'n gofyn i ymgeiswyr ddarllen ac ymateb i ffynonellau wedi'u seilio ar TGCh. Bydd cyfleoedd ar gael ar gyfer e-asesu.

Cwricwlwm Cymreig

Caiff ymgeiswyr gyfleoedd, trwy'r iaith darged, i drafod agweddau ar fywyd a diwylliant Cymru.

8

STRWYTHURAU GRAMADEGOL

Disgwylir y bydd ymgeiswyr TGAU wedi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o ramadeg Ffrangeg yn ystod eu cwrs. Yn yr arholiad bydd gofyn iddynt gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, gan dynnu ar y rhestrau canlynol. *Mae'r enghreifftiau mewn cromfachau yn ddynodol, ac nid yn benodol.* Ar gyfer strwythurau a nodir gan (G), gwybodaeth oddefol yn unig sydd ei hangen.

FFRANGEG HAEN SYLFAENOL

- Enwau:** cenedl
ffurfiau unigol a lluosog
- Y Fannod:** pendant, amhendant a chyfrannol, gan gynnwys defnyddio *de* ar ôl y negyddol
- Ansoddeiriau:** cytundeb
safle
cymharol ac eithaf: rheolaidd a *meilleur*
dangosol (*ce, cet, cette, ces*)
amhendant (*chaque, quelque*)
meddiannol
gofynnol (*quel, quelle*)
- Adferfau:** cymharol ac eithaf: rheolaidd
gofynnol (*comment, quand*)
adferfau amser a lle (*aujourd'hui, demain, ici, là-bas*)
ymadroddion adferfol cyffredin
- Meintiolwyr/Cryfhawyr:** (*très, assez, beaucoup, peu, trop*)
- Rhagenwau:** personol: pob goddrych, gan gynnwys *on*
atblygol
perthynol: *qui*
perthynol: *que* (G)
gwrthrych: uniongyrchol (G) ac anuniongyrchol (G)
safle a threfn rhagenwau gwrthrychol (G)
anghysylltiol/pwysleisiol
dangosol (*ça, cela*)
amhendant (*quelqu'un*)
gofynnol (*qui, que*)
defnyddio *y, en* (G)

Berfau: berfau rheolaidd ac afreolaidd, gan gynnwys berfau atblygol pob person o'r ferf, unigol a lluosog
 ffurfiau negyddol
 ffurfiau gofynnol
 dulliau cyfarch *tu, vous*
 berfau amherfonol (*il faut*)
